"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

# YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1887. [RHIF 72.

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Parch. Stopford A. Brooke | 169 |
| Cariad Dwyfol | 173 |
| Y Cyfarfod Blynyddol yn Nghapelygroes | 174 |
| Dafydd Llwyd, Llwynrhydowen | 177 |
| Beth am Undodiaeth? | 181 |
| Treulio'r Gwyliau | 185 |
| Nodynau Gwasgarog | 187 |
| Manion a Hanesion | 190 |
| Marwgofion | 192 |


Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

# YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1887. [RHIF 72.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

## Y PARCH. STOPFORD A. BROOKE.

DYWEDAI Mr. Gladstone, rai blynyddau yn ol, fod dylanwad Undodiaeth braidd yn anfesurol fwy nag y gellir meddwl a chasglu oddiwrth rifedi ei phroffeswyr. Mae hyny yn rhyfedd pan y cofiom fod traddodiad, ffasiwn, rhagfarn, a llawer ag sydd yn sylweddol yn mywyd crefyddol y ganrif hon, wedi bod, ac yn parhau i fod, yn gryf yn ei herbyn. Ar adegau, yr ydym yn barod i gredu nad oes dim nerth ynddi. Dywedir yn aml ei bod wedi ei chladdu; ac os nad yw wedi ei chladdu, proffwydir bob blwyddyn bron y bydd wedi marw yn fuan. Ond wedi'r cwbl, cytuna pob un sydd yn ystyried ac yn deall gogwydd yr oes, â Mr. Gladstone. Mae Undodiaeth, gan nad pa mor lluosog yw ei diffygion, pa mor fyr ydyw o gyrhaedd ei *ideal* ei hun, yn ddiamheu yn fyw, ac efallai, o ran ei hegwyddorion, y peth mwyaf byw yn symmudiadau crefyddol yr oes hon. Dan ei dylanwad, mae hen athrawiaethau celyd a chreulawn y credöau yn tyneru, ac mae pob cyfnewidiad sydd yn nodweddu yr eglwysi uniawngred, os na fydd yn gogwyddo at Rufain, yn arwain dynion yn nes, nes, o hyd at y golygiadau sydd wedi eu dal gan Undodiaid am ugeiniau o flynyddau.

Mae'n ffaith arwyddocaol nad oes un flwyddyn yn pasio heblaw fod rhyw nifer o weinidogion, a llawer o honynt yn sefyll yn uchel mewn cyfundebau uniawngred, yn ymadael oddiwrthynt ac yn ceisio am gartref yn y gorlan ryddfrydig mewn crefydd. Edrycher i'r *Unitarian Almanac* am y flwyddyn hon, a cheir yno enwau, o leiaf hanner cant o weinidogion allan o dri chant a hanner sydd wedi dyfod drosodd o Eglwys Lloegr, Eglwys Rhufain, ac enwadau ereill, ac wedi bod hefyd yn weinidogion yn y gwahanol eglwysi hyny. Yn eu plith mae Robert Spears, J. P. Hopps, W. Carey Walters, Frank Walters, R. R. Suffield

Chas. Hargrove, a'r mwyaf enwog ac adnabyddus o honynt i gyd, enw yr hwn sydd yn sefyll uwchben yr ysgrif hon—Stopford A. Brooke. Cafodd Mr. Brooke ei ddwyn i fyny yn Eglwys Lloegr; daeth i fod yn gaplan y Frenines, yn weinidog Capel St. James, Llundain, ac wedi hyny Gapel Bedford, Bloomsbury. Pan yn weinidog y lle diweddaf y gadawodd Eglwys Lloegr, yn cael ei ganlyn gan y rhan luosocaf o'i gynnulleidfa. Cymmerodd hyn le yn 1881. Am rai blynyddau parhaodd i gymmeryd safle annibynol, ac ni ddangosodd un tueddiad i ddyfod i gyssylltiadau allanol, pa beth bynag, ag Undodiaeth. Yn y flwyddyn 1884, torodd y ddadl, trwy dderbyn gwahoddiad i bregethu y bregeth yn Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd. Yn y bregeth hon, dan y teitl, "What think ye of Christ," cawn fras olwg ar brif arweddion ei addysg gyhoeddus fel gweinidog rhyddfrydig. Gyda golwg ar Mr. Brooke, nis gall fod amheuaeth yn nghylch ei gymmeriad Cristionogol ac uniondeb a phurdeb ei gymhelliadau. Yr oedd ei enw fel pregethwr yn adnabyddus yn mhell ac agos drwy y cyfrolau galluog o bregethau oeddynt wedi eu cyhoeddi, ac mae ei gymmeriad uchel fel llenor yn dyfod i'r golwg yn ei hanes o fywyd ei gyfaill, offeiriad enwog Brighton—F. W. Robertson. Ychydig yn Lloegr sydd yn sefyll yn uwch fel pregethwr ac awdwr; ac mae y cyfnewidiad sydd wedi cymmeryd lle yn ei safle crefyddol yn cario ystyr neillduol, oblegyd yr oedd ef, fel ereill, wedi bod am flynyddau yn ceisio dal y ffydd newydd y tu fewn i linellau yr hen Eglwys, a chymmodi ei gydwybod â phroffes o'r hen gredöau. Profodd yn ymdrech ddiobaith iddo; ac yn yr ysgrif hon ceisiwn roddi, yn ei eiriau ef ei hun, ei resymau dros y cyfnewidiad, a hyny yn neillduol, oblegyd mae ei resymau ef yn gwbl mor dda i feddyliau ereill; ac y maent hefyd yn dangos mor drwyadl mae y symmudiad Undodaidd mewn cydgordiad â chrefydd, dysg, a chwrtaith goreu yr oes, ac mor addawol yn bresenol ydyw rhagolygon y blaid ryddfrydig mewn crefydd.

Mewn llythyr a ysgrifenodd at ei gynnulleidfa, yn hyspysu iddynt ei fwriad i dori ei gyssylltiad ag Eglwys Lloegr, dywed, "Yr wyf wedi ystyried y mater am bedair blynedd, ac ni fyddai ei ystyried yn mhellach yn ddim ond dallu fy hun i'r gwirionedd, er mwyn cadw fy lle yn yr Eglwys. Nid wyf yn credu mwyach yn y gwyrthiau, nac yn awdurdod anffaeledig yr Eglwys na'r Beibl, ac nis gallaf mwyach, gyda chyfiawnder tuag ataf fy hun na ffyddlondeb i'r Eglwys, aros yn weinidog ynddi; ac mae yr anallu i addef gwyrth yr Ymgnawdoliad uwchlaw pobpeth arall yn fy ngyru allan o'i chymmundeb. Nid heb lawer o ofid dwys yr wyf yn gadael cyfundeb a wasanaethais am ragor nag ugain mlynedd. Ond wrth edrych yn mlaen, nis gallaf lai nâ llawenhau yn y teimlad o ryddid—llawenhau i fod yn alluog i siarad heb fy nghaethiwo gan unrhyw gyfundrefn, ac i ffoi oddiwrth awyrgylch yn yr hon yr oedd yn anmhossibl i mi anadlu, oblegyd meddylid fy mod yn dal holl athrawiaethau yr Eglwys yn y ffordd y dysgai yr Eglwys hwynt."

Mewn pregeth ar "Halen wedi diflasu," mae yn siarad fel hyn am yr Eglwys ei hun:—"Mae y syniad ar yr hwn y bedola yr Eglwys

wedi ei gymmysgu i fyny â'r hen gyfundrefn aristocraidd sydd wedi marw neu yn marw yn gyflym, sylwedd yr hon sydd mewn gwrthwynebiad i holl ffurfiau byw a symmudol cymdeithas. Mae wedi gwasanaethu yr amgyffrediad penarglwyddiaethol hwnw o Dduw sydd wedi gwneyd cymmaint o ddrwg mewn duwinyddiaeth ag mae gormes neu *caste* wedi ei wneyd mewn cymdeithas. Mae yn honi yr hawl i wahanu oddiwrthi ei hun, ac y mae yn ymdrechu cadw i lawr ddosparthiadau mawrion o ddynion ag mae eu bywyd ysprydol mor ddwfn â'i heiddo ei hun. Ei safon o ddaioni yw, nid daioni ysprydol, ond undeb â hi ei hun; ac er fod llawer y tu fewn iddi wedi ceisio estyn llaw o undeb i Ymneillduwyr, mae pob ymgais wedi methu, ac fe fetha etto."

Dyma ei ddesgrifiad o ddylanwad cyfundrefn grefyddol sydd wedi ei sylfaenu ar gredo ac ar awdurdod allanol yn unig:—"Tuedd anochelladwy y gyfundrefn hon a'i hawliau yw, gwneyd y pregethwr a'r gwrandawr yn weision, nid y Gair bywiol, ond cyfundrefn y llythyren, esgyrn mewn ysgerbwd, nid aelodau o gorff byw, *caethion wrth lyfr neu yr offeiriadaeth*, swyddogion a gwrandawyr nad ydynt yn gwybod pa beth sydd yn perthyn iddynt, *y rhai na allant symmud ond mewn cadwynau.* Mae awdurdod o'r fath yma, a'i chanlyn yn ffyddlon, yn rhwymo yr enaid yn ngharchar y gorphenol, yn gorfodi y gydwybod i fod yn ddystaw, ac yn fwy mynych byth yn aberthu y rheswm ar allor duwinyddiaeth eglwysig. Ond y galluoedd hyn ag y mae awdurdod yr Eglwys yn tueddu i'w gwanhau ac i'w parlysu ydynt y rhai ag y mae Duw wedi eu rhoddi i ni i'w galluogi i weled ei wirionedd, i adnabod ei air, ac i dderbyn i'n calonau drysorau newydd datguddiad ydynt yn dyfod o hyd i'r golwg fel mae'r byd yn myned rhag ei flaen."

Cwbl mor eglur ydyw ei iaith gyda golwg ar gulni yr Eglwys a'i pherthynas â'r syniad pwysig o eglwys gyffredinol:—"Yr oeddwn yn teimlo," meddai, "fod syniad yr Eglwys, nid yn unig yn annigonol, ond yn gwrthddweyd ei hun. Mae *theory* yr Eglwys yn cau allan bawb nad ydynt yn cytuno â hi—pawb nad ydynt yn addef ei chredöau neu yn cydnabod anffaeledigrwydd y Beibl. Ac nid yw yr Eglwys wrthi ei hun yn y mater hwn. Yn awr, mae y culni hwn, a'r ffrwythau sydd wedi deilliaw o hono, wedi bod wrth wraidd yn agos i hanner y drygau sydd wedi cyssylltu eu hunain â chrefydd. Yn y gorphenol, gwnaeth erlidigaeth yn ddyledswydd Gristionogol; yn y presenol, mae yn achos fod deddf cariad Cristionogol yn cael ei throseddu bob dydd yn gyhoedd neu yn annghyhoedd. Yr oedd y *theory* hon hefyd yn fy meddwl I yn gwadu y syniad gogoneddus hwnw o eiddo yr Iesu—tadoldeb cyffredinol Duw a brawdoldeb cyffredinol yn mysg dynion, ac eglwys gyffredinol sydd yn cofleidio yr holl hiliogaeth. Mae eglwysi a sectau yn siarad am Eglwys Dduw a'r byd fel dau beth gwahanedig. Y wir olwg yw, fod y byd i gyd yn Eglwys Dduw—fod pawb mewn *idea* wedi eu prynu, ond nid eu hachub; y caiff yr *idea* ei sylweddoli yn gyflawn yn y diwedd, a daw dynoliaeth i gyd yn blant i Dduw mewn gwirionedd."

Mae ei brofiad o'r hyn a elwir yn iawnffyddiaeth ryddfrydig yn werth gwneyd sylw o hono:—"Methais gael gorphwysfa gydag un o bleidiau

yr Eglwys, a llai nâ'r cwbl gyda'r blaid eglwysig ryddfrydig. Yr oeddwn yn argyhoeddedig fod yr oll o grefydd yn dyoddef oddiwrth y safle a gymmerid i fyny gan y *Broad Church*. Ac o herwydd y niwaid oedd yn cael ei wneyd gan y fath ymddygiad, penderfynais sefyll o'r tu allan. Yr wyf yn rhydd yn awr, ac yr wyf o galon yn falch o herwydd hyny. Yr wyf wedi canlyn yn llawen fy argyhoeddiadau, ac edrychaf yn mlaen gyda brwdfrydedd at y cyfleusdra i bregethu y gwirioneddau mawrion sydd yn gosod allan berthynasau Dwyfol Duw a dyn."

Wrth siarad am awdurdod y Beibl, dywed fel hyn:—"Mae yn perthyn i feirniadaeth ddinystriol o'r Beibl ei drygau, ond nid ydynt cynddrwg â'r rhai sydd yn canlyn oddiwrth wahardd beirniadaeth yn gyfangwbl. Pan fyddo y weinidogaeth Gristionogol yn sefyll ar ol yn llinell cynnydd yr oes mewn gwybodaeth Feiblaidd, mae yn sicr o ddyfod i derfyniad buan; a daw y diwedd yn fwy cyflym os meddylir ei bod yn gwybod y gwirionedd, ond yn ei gadw dan gudd. Nis gall unrhyw ymgais i ddal opiniynau am y Beibl ag y mae gwyddor bob dydd yn ei phrofi yn fwy-fwy cyfeiliornus a gwrthun ond dwyn dinystr ar yr Eglwys; ac yn rhuthr y llifeiriant, bydd perygl, nid yn unig i'r rhagfuriau, ond y sylfeini eu hunain, gael eu hysgubo ymaith."

Oddiwrth y geiriau hyn, gwelwn mor ddwfn ydyw cydymdeimlad Mr. Brooke â holl yspryd Cristionogaeth ryddfrydig, ac mor hollol gydwybodol y mae y cyfnewidiad wedi bod. Gallasai fod wedi aros, a chadw anrhydedd a buddiannau ei swydd yn yr Eglwys, fel y gwna cannoedd ereill, trwy adrodd o Sul i Sul yr hen eiriau, a myned drwy yr hen ffurfiau, gan roddi iddynt yr ystyr a fynai; ond gyda Moses, "Gwrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh, gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw nâ chael mwyniant pechod dros amser."

Meddylir yn gyffredin fod yn rhaid i bwy bynag fyddo yn rhoddi i fyny yr elfen wyrthiol mewn crefydd, ac yn neillduol athrawiaeth Duwdod Crist a'i enedigaeth wyrthiol o'r Forwyn Fair, roddi i fyny, o angenrheidrwydd, yr Efengyl, a darfod bod yn Gristion—darfod, o'r hyn lleiaf, i gydnabod ac i ganlyn Crist fel blaenor ac arweinydd. Ond dyma ddyn sydd wedi rhoddi i fyny yn hollol ei gred mewn gwyrth o unrhyw fath, ac yn dyfod allan yn hollol ar dir trefn naturiol pethau, ac etto, sydd yn cael ei hun yn fwy o Gristion, ac yn teimlo mwy o ymlyniad a gwarogaeth at Ben mawr Cristionogaeth nag oedd yn bosibl iddo o'r blaen. Dywed, "Credaf, er nad yw person Crist mwyach yn wyrthiol i mi, ac er nad wyf yn ei ystyried yn Dduw, fod Duw, er hyny, wedi datguddio ei Hun yn neillduol drwyddo ef; fod crefydd uchaf dynolryw wedi ei sylfaenu ar ei fywyd a'i ddatguddiad; mai yspryd ei fywyd ydyw goleuni ac iachawdwriaeth dynion; ac mai efe ei hun ydyw pen a chynnrychiolydd dynolryw. Mae gwrthodiad yr elfen wyrthiol yn gadael heb eu cyffwrdd yr holl wirioneddau mawrion ysprydol yr wyf wedi arfer eu dysgu. Maent yn awr yn fwy clir nag o'r blaen—yn fwy gwasanaethgar i fod yn ysprydoliaeth ac yn gyssur i ddynion."

Mae'n llawer o gefnogaeth i ni, yn neillduol yn Nghymru, sydd yn gweithio mewn lleoedd unig a neillduedig, yn nghanol twrf yr enwadau

poblogaidd, dan gysgod yr Eglwys fawr Sefydledig, sydd yn edrych i lawr mewn dirmyg arnom, os ydynt yn edrych o gwbl, i gael fod y fath ddynion â Stopford Brooke, o herwydd y rhesymau a grybwyllwyd, yn dyfod allan mewn dull mor wrol i sefyll ochr-yn-ochr â ni, a helpu'r gwaith da yn mlaen, pan mae ef, ac ereill gydag ef, o flwyddyn i flwyddyn, yn tori eu hen gyssylltiadau, yn aberthu swyddi uchel a'r cyssuron sydd yn nglyn â hyny, mewn ufudd-dod i lais cydwybod, mae yn dangos mai nid rhyw fwrlwm ar wyneb y ffrwd ydyw y symmudiad rhyddfrydig mewn crefydd, ond y llanw ydyw, a ysguba ymaith cyn hir hen greulonderau a dychrynfeydd y credöau, a chawn nef newydd a daear newydd, a gwyneb ein Tad yn siriol wenu ar y cwbl.

A. B. C.

---

## CARIAD DWYFOL.

*(Efelychiad.)*

TÔN—"PEMBROKE."

O Dduw! dy gariad moli wnaf,
Mor deg llewyrcha'i ddoniau braf
Drwy'r eangderau mawr!
Dylifa o gylch dy orsedd gref—
Ei fwyniant leinw nef y nef,
A threiddia i'r ddae'r i lawr.

Dillada'r maes mewn gwisgoedd gwyrdd,
Addurna'r ddôl â blodau fyrdd—
Mor ber eu harogl yw!
Gwasgara'i roddion drwy'r holl fyd—
Yr addfed ffrwyth, y melyn ŷd,
A lluniaeth pob peth byw.

Ond mil mwy hardd yw'th gariad rhad
Yn dy Efengyl, dirion Dad,
Yn gwrando'n cwyn a'n llef:
Fel seraff gwych, dadguddia ffydd
Lwys faesydd y tragwyddol ddydd,
Ac egyr byrth y nef.

O boed i'th serch sy'n denu'm bron
I'm llanw'n llwyr â moliant llon,
A diolch gwresog pur;
A'm tueddiadau'n gadwyn fad
I'm uno â Thi, fy Nefol Dad,
Fy nawdd, a'm Cyfaill gwir.

Un pelydr byw o'th nefol dân
Moes im', fel byddo i'th Ysprydd Glân
Wresogi'm calon I;
O dysg i'm ddwyn dy Ddwyfol bryd,
A thaenu bendith drwy y byd,
A charu fel Tydi.

*Bradford, Gorph.* 5, 1887. E. Ceredig Jones.

---

## Y CYFARFOD BLYNYDDOL YN NGHAPELYGROES.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Undodiaid Deheubarth Cymru eleni yn Nghapelygroes, ger Llanbedr, ar yr 22ain a'r 23ain o Mehefin diweddaf. Yr oedd y tywydd yn wir hyfryd—nid oedd un amgylchiad rhwystrol yn y gymmydogaeth, ac felly, rhwng pobpeth, cafwyd cyfarfodydd lluosog. Yn neillduol gyda ni yn Sir Aberteifi, y mae y cyfarfodydd blynyddol yn troi allan yn llawer mwy llwyddiannus nâ'r Cyfarfodydd Chwarterol yn yr Hydref a'r Nadolig a'r Pasc; a thrwy gydymdeimlad a charedigrwydd gweinidogion y siroedd ereill, bendithir ni yn aml mewn cymhariaeth â'r Cwrdd Blynyddol yn yr Haf. Edrychir ar y cwrdd hwn yn Sir Aberteifi, fel math o "uchel-wyl gyfarfod," i'r hon y cyrcha y gwasgaredigion Undodaidd o'r De ac o'r Dwyrain, o'r Gogledd ac o'r Gorllewin, fel cynt y cyrchai y llwythau i fyny tua Jerusalem ar y prif wyliau, neu fel y cyrchai y Methodistiaid mewn amser diweddarach i *sassiwn* fawr Llangeitho. Y mae yn fwy cyfleus i gynnal y Cyfarfodydd Tri-Misol mewn pentrefydd a manau lle mae cyflawnder o lô a thân, a llettai heb fod yn nebpell o'r capeli, oblegyd y mae yn dygwydd yn aml fod yr hin yn oer ac ynwlyb iawn yn amser y cyfarfodydd hyn, yn enwedig Cyfarfod y Nadolig, ac ar y cyfan y mae ein trefniadau yn cyfateb i'r amgylchiadau. Y mae gweinidogion Undodaidd Sir Aberteifi, yn ddiolchgar i'w brodyr yn Morganwg am hyn o fraint; ond nid ydym ar yr un pryd heb ystyried ei bod yn gryn *dreat* iddynt hwy sydd yn byw ac yn ymboeni yn y weinidogaeth gerllaw tânau, ac yn nghanol mwg gweithfeydd mawrion Morganwg—ei bod yn gryn *dreat* iddynt i gael dyfod am ychydig ddiwrnodau yn yr Haf i ddarostwng eu tymheredd i naws naturiol yn yr awelon iachus a chwythant ar fryniau Ceredigion, i ymdrochi yn ei hafonydd, ac i yfed yn helaeth o ddwfr glân gloew ei ffynnonau oerion, a'r adar mân mewn modd mor swynol yn peroriaethu croesawiad iddynt ar gangau y coed gerllaw, fel pe yn cyd-ddywedyd, "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno." Wrth wrandaw gweinidogion Morganwg yn pregethu yn Nghyfarfodydd Ceredigion, tebygwn eu bod yn pregethu yn iachach, gyda mwy o hwyl, ac yn llawnach o ysprydoliaeth nâ phan y maent yn nhref, a hyny, o herwydd fod awyr iachus Sir Aberteifi, a pherarogl ei meusydd meillionog yn eu bywhau gorff a meddwl.

Fy amcan wrth ddechreu oedd ysgrifenu hanes y Cyfarfodydd Blynyddol diweddar yn Nghapelygroes, ond yr wyf wedi crwydro yn rhyfeddol, a gobeithio y gwna y darllenydd faddeu i mi. Wel, dechreuodd y cyfarfod am chwech prydnawn dydd Mercher. Yr oedd cynnulleidfa dda wedi dyfod yn nghyd, a hono o bobl, wrth yr olwg arnynt, yn awyddus i wrandaw a gwybod y gwirionedd. Aeth y Parch. Jenkin Williams trwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth mewn modd cymmeradwy iawn. Pregethodd y Parch. Wm. Parry, oddiwrth y geiriau a welir yn Esaiah vi. 8. Gwelodd Mr. Parry yn dda i anfon i mi y braslun canlynol o'i bregeth :—

"Clywais hefyd lef yr Arglwydd yn dywedyd, 'Pwy a anfonaf? a phwy a ä drosom ni?' Yna y dywedais, Wele fi, anfon fi."—ESAIAH vi. 8.

Meddai yr Iesu, "y mae fy Nhad yn *gweithio hyd yn hyn.*" Mae gan Dduw waith i'w wneyd yn mhob parth o'r byd, ac yn mhob oes o hono, ac y mae Efe yn ceisio cydweithrediad dyn yn y gwaith yma. Meddai Paul, "cydweithwyr Duw ydym ni." Am hyny, mae llef yr Arglwydd yn dyfod at bob dyn, gan ddywedyd, "Pwy a anfonaf? a phwy a ä drosom ni" at waith Duw? Mewn ufudd-dod i'r "llef" yma, yr aeth Moses allan i hyspysu i blant Israel "ddeddfau Duw a'i gyfreithiau." Mewn ufudd-dod i'r un "llef" yr ymgymmerodd Esaiah a rhybuddio pobl Judah a Jerusalem mai nid aberth o seremoniau, defodau neu gredoau a geisiai yr Arglwydd ganddynt, ond aberth bywyd pur a chariadus, peidio gwneuthur drwg a dysgu gwneuthur daioni. Jeremiah, Ezeciel, Hosea, Micah, ac ereill, a glywsant yr un "llef," ac yn uchel y cyhoeddasant y genadwri, "Bwriwch oddiwrthych eich holl gamweddau y camweddasoch ynddynt, a gwnewch i chwi galon newydd ac yspryd newydd. . . . Hyn a gais yr Arglwydd genych, gwneuthur barn a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'ch Duw." Daeth yr un "llef" at Ioan Fedyddiwr, a pharodd iddo fyned allan i bregethu a bedyddio, gan lefain, "Edifarhewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd." Ië, y "llef" yma a berodd i'r Iesu tirion fyned allan i ddysgu byd pechadurus fod gan afradloniaid a phechaduriaid y ddaear yma Dad yn y nefoedd—Dad nad oedd yn chwenych marwolaeth yr un o honynt, ond un ag oedd yn llawenhau gweled hyd y nod y gwaethaf o hwynt yn troi ei wyneb ato Ef. Clywodd Paul y "llef" yma yn dywedyd wrtho ef am gyhoeddi fod Efengyl Crist yn allu Duw er iachawdwriaeth i bawb. Daeth y "llef" yma hefyd at Luther, Calvin, Wesley, Carlyle, Emerson, ac ereill, yn yr oesoedd diweddaraf yma i'w hanfon i draddodi y genadwri ag oedd eu hoes eu hun yn sefyll mewn angen o honi. Mae gwaith Duw yn y byd yn amrywio; ac felly, y mae amrywiol ffyrdd i fod yn broffwydi, angylion, neu seintiau. Medr y fam hono a golla ei chwsg i gyweirio rhyw *frock* fechan neu hosanau, fod yn angel Duw yn y byd yma. Neshau yn nes ac yn nes yn mhob oes y mae teyrnas Dduw—"teyrnas, cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." Ac y mae Duw yn ceisio cydweithrediad dyn i ddwyn y deyrnas yma i feddiant pawb. Mae yn waith ag y medr pob dyn, menyw, a phlentyn

gymmeryd rhan ynddo. Gwyn fyd y sawl a fedr ddywedyd, "Wele fi, anfon fi," pan y byddo Duw yn gofyn iddo, "Pwy a anfonaf? a phwy a ä drosom ni at a gwaith yma?"

Cafwyd pregeth drachefn gan y Parch. J. Hathren Davies, oddiwrth 1 Cor. 2. Er i mi geisio crynodeb o'r bregeth hon yn ogystal, ni chydsyniodd yr awdwr â'm cais er siomedigaeth i mi ac ereill. Yr oedd yn bregeth dda, ond nid rhy dda i ganiatau i ryw ychydig o honi gael ymddangos yn Yr Ymofynydd.

Tranoeth, sef dydd Iau, oedd y prif ddydd, ac erbyn deg o'r gloch yr oedd yr hen gapel yn anhyfryd o lawn ar lawr ac ar lan. Bu rhaid gadael y drysau oll yn agored led y pen, ac felly y ffenestri, rhag mogi o rai o'r dynion oddifewn, ac er mwyn cael o'r ugeiniau oddiallan ryw siawns i glywed y pregethwyr yn llefaru. Y golled yn y trefniadau oedd na buasai esgynlawr wedi cael ei osod i fyny mewn cae bychan gerllaw, fel ar achos cyffelyb unwaith neu ddwy o'r blaen. Bu y diffyg hwn, yn ddiau, yn annghyfleusdra mawr i ugeiniau o'r gwrandawyr. Dechreuwyd am 10, trwy ddarllen a gweddio, gan y Parch. J. Davies, a phregethwyd gan y Parch. Jno. Evans, oddiwrth 1 Pedr iii. 15. Drwg genyf na wnaeth y gwr boneddig hwn ychwaith anfon i mi ryw ychydig o sylwedd ei bregeth dda i'w osod yn Yr Ymofynydd. Ar ol Mr. Evans, esgynodd pregethwr y dydd, sef y Parch. E. W. Lloyd, risiau yr areithfa, a phregethodd yn hwylus a dealladwy am ryw awr o amser oddiwrth y geiriau sydd i'w gweled yn 1 Pedr iii. 15, a 1 Tim. vi. 12. Drwg genyf glywed na fu iechyd Mr. Lloyd byth yn dda ar ol iddo ddychwelyd o'r cyfarfod hwn. Gobeithio y ca adferiad buan. Bu mor garedig ag anfon i mi y bregeth a draddododd, yr hon, fel yr wyf yn gobeithio, a gaiff ymddangos mewn rhyw rhifyn dyfodol o'r Ymofynydd. Ar ol pregeth Mr. Lloyd, cynnaliwyd *conference*, pan y darllenodd y Parch. T. Lloyd Jones, gyda'i fywiogrwydd arferol, ei bapyr doniol a dyddorol ar y pwnc appwyntiedig, sef, "Pa beth am Undodiaeth yn ol arwyddion yr amserau?" Ni chododd neb i fyny ar ei ol i ddweyd dim yn erbyn mâ thros. Y mae genyf addewid yr awdwr y caiff Yr Ymofynydd ei anrhydeddu â'r papyr hwn cyn bo hir. Cafwyd dwy bregeth etto yn y prydnawn. Dechreuwyd y gwasanaeth gan yr hybarch Broffeswr Evans. Yr oedd ef, fel arferol, yn ei deyrnas. Pregethwyd yn gyntaf gan y Parch. W. J. Davies, oddiwrth Preg. ix. 10. Yr oedd yn bregeth dda, ac anfonodd ataf i ddweyd y caiff ymddangos yn gyflawn yn Yr Ymofynydd am ryw fis yn y dyfodol. Tebyg y bydd llawer o'i darllenwyr yn siarad am dani yn y *comparative* os nid yn y *superlative degree*. Canlynwyd Mr. Davies gan y Parch. R. J. Jones, A.C., Aberdar, yr hwn oedd ar ei uchelfanau. Ei destyn oedd Heb. xii. 16. Fel Golygydd, efallai, y gwel ef yn dda anrhegu ei ddarllenwyr â rhyw ddarnau o'i bregeth yn Yr Ymofynydd, pan gaffo hamdden i'w casglu at eu gilydd.

Felly, y daeth y cyfarfodydd uchod i derfyn. Cyfarfodydd da oeddynt,—da gyda golwg ar nifer y gwrandawyr, da gyda golwg ar y pregethau a draddodwyd, ac ni a obeithiwn da gyda golwg ar y ffrwythau sydd i ganlyn.

Peth na chymmer le yn aml—yr oedd holl weinidogion Cymreig y Deheubarth yn bresenol; a chafwyd yn ychwanegol bresenoldeb y brodyr, y Peirch. T. Ll. Jones, o Liverpool, a J. Gwenogfryn Evans, A.C., o Rydychain—Cymry glân heb eu llygru gan ysprydDic Shon Dafydd. Hyderwn y cawn eu cwmni a'u gwasanaeth etto mewn rhai o'r cyfarfodydd a ddaw. Yr oedd yn bresenol hefyd y Parch. Mr. Phillips, gweinidog y Bedyddwyr yn Cwrtnewydd a Chapel-yr-Hafod. Yr oedd yn dda genym ei weled yno.

Dymunwn goffau fel newydd-beth yn ein cyfarfodydd, sef, fod yn Capelygroes farchnadfaine lyfrau (*book stall*), yn ngofal y Mri. James, Jones a'u cyf., lle y gwerthid llyfrau Undodaidd, a bydd hyn o beth yn un o hynodion ein Cyfarfodydd Chwarterol a Blynyddol yn y dyfodol. Gwerthir yno *Ymofyniad Tawel Belsham*, *Egwyddorwr Lindsey*, *Appel Dr. Priestley*, *Paul ac Iago*, *Onid ydym ninau hefydyn eiddo Crist*, *Bannau Ffydd Undodwr*, yn nghyd á llyfrau ereill. Rhodder pob annogaeth i'r cyfeillion da uchod yn eu hanturiaeth newydd hon. Nid ydynt am elwa rhyw lawer, ond y maent yn awyddus i fod o wasanaeth i'r achos da.

Y mae'r Cyfarfod Blynyddol nesaf i fod yn Gellionen. Pregethwr, y Parch. T.T. Bydd Cyfarfod Chwarterol yr Hydref yn Brondeifi, Llanbedr. Pregethwr, y Parch. W. James, G.C. Pwnc y *Conference* heb ei benderfynu, ond ceir ei wybod etto yn ol llaw ac yn brydlawn.

Gorphenaf 18, 1887.

[Mae pregeth Mr. Lloyd dan ystyriaeth. Yn y cyfamser, bydd yn dda gan ei gyfeillion wybod, er wedi bod yn ganolig iawn, ei fod yn awr yn llawer iawn gwell.—Gol.]

---

## DAFYDD LLWYD, LLWYNRHYDOWEN.*

*(Allan o'r "Monthly Magazine" am Gorphenaf*, 1812).

Ar yr ail ar bymtheg o Ionawr diweddaf, bu farw Mrs. Lettice Lloyd, gweddw y diweddar Barch. David Lloyd, gweinidog y cynnulleidfaoedd o Annghydffurfwyr Protestanaidd yn Llwynrhydowen, Galltyplaca, &c., Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin, Deheudir Cymru. Hi a oroesodd ei phriod yn agos i dair blynedd ar ddeg ar ugain, ac yr oedd yn ieuengach na'r brenin o un diwrnod yn unig. Disgynai Mrs. Lloyd, o ochr ei mam, o Lwydiaid Ffos-y-bleiddiaid, teulu o gryn enwogrwydd am eu hen achyddiaeth, ac am eu hymlyniad wrth achos y Stiwardiaid. Yr oedd y Milwriad David Lloyd o'r Ffos, os nad ydym yn camsynied, yn gyfranogwr o alltudiaeth Iago II. Mae gan

* Yr ydym yn ddyledus i Mr. Priestley Evans, Cefncoed, am sicrhau yr erthygl ganlynol, ac i'r Parch. J. Hathren Davies am y cyfieithad,—Gol.

gynnrychiolydd tŷ Ffos-y-bleiddiaid ei sedd, ar hyn o bryd, yn Mabws, a goroeswr olaf y sawl a anwyd yn yr hen annedd yw y Cadfridog Lloyd, o'r *Artillery*. O ochr ei thad, disgynai Mrs. Lloyd o David Llewellyn Lloyd, o Gastell Hywel, yr hwn oedd y cynnrychiolydd cyntaf yn y Senedd dros Sir Aberteifi yn nheyrnasiad Harri VII. Cyn yr undeb rhwng Cymru a Lloegr, yr oedd ef, yn nghyd â llawer ereill, mewn meddiant o deitlau a breintiau y bendefigaeth, ond y rhai, trwy ryw esgeulusdod, ni sicrhawyd gan ddeddf yr undeb. Trwy ymostwng yn unig i ddeddfau Lloegr, y rhai ydynt yn cydnabod Brenin Lloegr fel ffynnonell anrhydeddau, darfu i'w bendefigaeth, o ddiffyg gofal priodol, gael ei cholli. Trwy ei mamgu, hanai Mrs. Lloyd o deulu Cornwallis, o Abermarles, barwniaid, y rhai, wedi hyny, a grewyd yn Farwniaid Montalt ac Is-iarlliaid Hawarden. Er iddi gael ei haddysgu yn mynwes tŷ cyfoethog, yn yr hwn y cyfnewidid enw y Brenin Iago am enw y Brenin Siors, yn y gweddiau beunyddiol, hi a ddaeth, tra etto yn ieuanc, yn Annghydffurfiwr oddiar argyhoeddiad. Yr oedd yr amgylchiadau hyn yn achos trallod nid bychan i'w pherthynasau agosaf. Dygwyddai fod ei brawd henaf, yn nhŷ yr hwn yr arosai, ar daith yn Norfolk. Ar ei ddychweliad, darfu i chwaer hŷn na hi, yr hon oedd yn fenyw brydweddol iawn mewn meddwl a chorff, a'r hon a fu yn destyn llawer teyrnged oddiwrth yr awen, ond yr hon a fynwesai holl egwyddorion Uchel-Eglwysig a Thoriaidd ei theulu, dori y newydd brudd gyda theimlad dwys, fod "Lettice wedi myned yn Bresbyteriad." Yr oedd y brawd, fodd bynag, er yn ddyn bydol, yn ddyn o synwyr, a thrwy ymgymmysgu â chymdeithas, yn ddyn o farn ryddfrydig. "Wel," meddai, "mae yn well fod gan ein chwaer deimlad o *ryw* grefydd, na'i bod heb grefydd o gwbl." Yn mhen rhai blynyddoedd, cymmerodd ei hundeb a'r dysgawdwr ag oedd wedi dwyn y cyfnewidiad hwn oddiamgylch, le—undeb ag oedd yn anrhydeddus iddi hi, i fesur nid bychan, am y meddai ffortiwn a ystyrid, yr amserau hyny, yn ddigonol, ac am yr hanai o'r un gwreiddyn cyffredin, David Llewelyn Lloyd, Arglwydd Castell Hywel. Ni allai gofid a siomedigaeth ei chwaer barhau yn hir wedi iddi gael gwell adnabyddiaeth o'i brawd-yn-nghyfraith; ac er iddi gadw at ei daliadau crefyddol, daeth ei serch ato, a'i edmygedd o hono yn fawr ac yn ddidwyll. Mae ysgrifenydd yr erthygl hon yn cofio yn dda am yr astudrwydd â pha un y ceisiai yr ysgolor coeth ddyfyru a boddhau y ddynes lednais hon, trwy ddarllen iddi y ffugchwedlau goreu a'r gweithiau mwyaf dyddorol yn yr iaith Seisnig. Gan nad oes un sylw wedi cael ei gymmeryd yn gyhoeddus o gyrhaeddiadau a chymmeriad y Parch. David Lloyd, o Lwynrhydowen, a chan fod eich gwaith weithiau yn derbyn erthyglau o fywgraffiad sydd wedi ei esgeuluso, dichon na fyddai yr achlysur presenol, pan gofnodir hanes marwolaeth ei weddw, ddim yn anaddas i hanes byr o hono gael ymddangos.

Ganwyd David Lloyd yn Coedlannau. Yr ydys yn barod wedi rhoddi disgynyddiaeth ei dad, ac nid oes yr un hanesyn am dano o werth sylw ar glawr. Yr oedd yn hoenus yn ei ieuenctyd, ond yn *respectable* iawn wedi tyfu i fyny. Mam David Lloyd oedd chwaer

i Jenkin Jones, yr hwn a sefydlodd, yn Llwynrhydowen, y gymdeithas grefyddol gyntaf yn Neheudir Cymru a broffesai egwyddorion gwrthwynebol i syniadau Calfinaidd. Sugnodd egwyddorion Annghydffurfiaeth oddiwrth ei fam rinweddol, yr hon a gofir yn hir am ragoroldeb ei phen a'i chalon. Derbyniodd ei wybodaeth o'r ieithoedd henafol oddiwrth feistr enwog yn y gymmydogaeth hono o'r enw John Evans, ac mae David Lloyd, mewn cywydd Cymreig sydd yn cynnwys hanes byr o'i fywyd ei hunan, yn desgrifio y meistr hwn fel y "penna'i ddysc pan yfai ddw'r." Carai gwrw yn well. Dywedid gan ei frawd, yr Hybarch John Lloyd, o Goedlannau, y byddai David Lloyd, ar ei ffordd i'r ysgol, y pellder o yn agos i ddwy filldir, yn trysori i'w gôf bob boreu yn rheolaidd ddim llai na dau cant o linellau o'r "Iliad." Efrydodd ar gyfer y weinidogaeth yn yr Athrofa Annghydffurfiol yn Nghaerfyrddin, yn gyntaf o dan y Parch. Mr. Perrot, ac ar ol hyny, o dan y Parch. Samuel Thomas, yr hwn a enwir ganddo yn y cywydd ag yr ydys wedi crybwyll ato'n barod.

"Samuel dra symyl ei drin,
Goreu o fyrdd yn Nghaerfyrddin."

Nid oedd ei arosiad yn yr athrofa hon, fodd bynag, ond o fyr barhad. Bu farw ei cwythr gododig, Jenkin Jones, yr hwn hefyd a grybwyllir yn y cywydd yn y modd mwyaf anrhydeddus. Ni phregethai un gweinidog bron yn eu capel, oddigerth y Parch. David Thomas, o Lanedi, a'r Parch. Samuel Thomas, Caerfyrddin, y rhai oeddent eill dau yn weinidogion sefydlog, ac heb fod yn addefedig o elyniaethus i'r ffydd gyffredin yr adeg hono. Dywedir hanesyn am fam David Lloyd. Pan gyrhaeddodd David Thomas, dydd Sadwrn ar ol marwolaeth Jenkin Jones, i bregethu am y tro cyntaf i'r praidd ag oedd wedi eu hamddifadu o'u bugail, wrth nesu at borth y capel, clywodd lais menyw yn mysg y bobl dorcalonus yn llefaru geiriau taerion o fawl a gweddi, a chafodd allan fod chwaer ofidog y bugail oedd newydd farw mewn tosturi at angenion ei brodyr, y rhai nid oeddent yn abl i weinyddu o flaen y gynnulleidfa oedd wedi ymgynnull yn nghyd, a'r rhai oeddent wedi gwan-obeithio am ymddangosiad y pregethwr dysgwyliedig, wedi gorchfygu yn ardderchog ofnusrwydd a gwyleidd-dra ei rhyw, ac yr oedd yn arfer ei thalentau dysglaer er dal i fyny yr achos gwywedig, ac yn anfoddlon i ollwng ei chyfeillion i ymadael heb gael cyssuron a dyddanwch defosiwn. Ni pharhaodd David Lloyd ond dwy flynedd neu ddwy flynedd a hanner i ddylyn ei efrydiaethau parotoawl. Galwodd yr amgylchiad hwn arno i arfer ei alluoedd fel pregethwr. Ganwyd ef yn 1724, a daeth yn fugail ar y gynnulleidfa yn mhen ychydig ragor na deunaw mlynedd wedi hyny. Ni welwyd erioed achlysur i fwy o wroldeb, a chafwyd y gwroldeb hwn mewn llencyn deunaw oed. Yr oedd y wlad mewn arfau yn ei erbyn o herwydd ei syniadau crefyddol, a dyfeisid pob anair y gellid meddwl am dano i ddeifio ei enw da, ac i bylu ei lwyddiant. Er hyny, cymmaint oedd nerth moesau pur a thalentau gloewon, yn cael eu cynnorthwyo

gan achos da, fel y darfu i helaethiad eang gael ei wneyd yn y capel yn 1746. Ordeiniwyd ef pan yn 19eg oed, ar ol cyfarfod ag anhawsderau nad ydynt ond yn anaml yn dyfod o fewn profiad dyn. Am yspaid hir yr oeddys wedi methu cael gweinidogion â digon o wroldeb a rhyddfrydigrwydd ynddynt i weinyddu yn ei ordeiniad, yr hyn a ystyrid yn anhebgor i weinidog. Yr oedd gan yr hybarch Philip Pugh, o Lynymarch, er yn uniongred, ormod o ryddfrydigrwydd i weithredu yn elynol at yr athrawiaethau newyddion. Datganodd ei farn am y dyn ieuanc fel yr "haul yn codi." ond etto, esgusododd ei hunan. O'r diwedd, darfu i Mr. Palmer, o Abertawe; Mr. D. Thomas, o Lanedi; Mr. S. Thomas, o Gaerfyrddin; Mr. Timothy Davies, o Gaeronnen, ac efe a ddichon un neu ddau yn rhagor, gyflawnu y swydd bwysig o neilldno y dyn ieuanc at waith y weinidogaeth. Ar yr adeg hon, ychydig yn Lloegr oedd wedi addef eu hannghrediniaeth yn y Drindod, ac yn yr hyn a elwid yn Athrawiaethau Gras. Ni roddid un help i'r *meddylwyr* dinod a phell hyn: gorfodid hwynt i ddwyn holl dreuliau eu sefydliad, heb fawr help o un cyfeiriad, ond cynnorthwyid hwy yn benaf gan deulu eu gweinidog, am y rhai y gellir dweyd eu bod bob amser wedi dyoddef pwys a gwres y dydd. Yr oedd yr holl wlad mewn gelyniaeth tuag atynt, oddigerth rhai o offeiriaid a boneddwyr Eglwys Lloegr, y rhai, fel ag y gwyddys yn dda, a ragflaenasant yr Annghydffurfwyr mewn rhyddfrydigrwydd, a'r rhai, yn yr ardal hono, nid oedd flin ganddynt i weled y cwmmwl du c benboethni ag oedd yn crogi dros y wlad yn cael ei wasgar. Yr oedd rhai o'r cyfryw yn bresenol yn yr ordeiniad, ac yn eu plith fam Mrs. Lloyd, egwyddorion yr hon, fel eiddo ei theulu, oeddent uchel, a'r hon ni feddyliodd ond ychydig y delai ei merch, ar ol ei marwolaeth hi, yn wraig i'r dyn ieuanc a edmygai hi am ei dalentau a'i foesau, er nas gallai lai nâ ffieiddio ei ymddygiad sectarol. Dichon ei bod yn iawn yma i wneyd cyfiawnder a theilyngdod wedi iddo ymadael. Yr oedd y ddynes hon, —dynes o yspryd uchel,— Mrs. Lloyd, o Lanfechan, yn meddu ar gallineb, ac er gwaethaf ei hopiniynau crefyddol a pholiticaidd, hi a wyddai sut i werthfawrogi teilyngdod mewn ereill. Hi a barchai David Lloyd a'i fam. Yr oedd hefyd yn hynod gymwynasgar. Yn ystod y *rhew mawr*, fel ei gelwid, ac yn y flwyddyn o brinder a'i dylynodd, yr oedd y bobl yn marw o eisieu; rhanodd yn mysg ei chymmydogion tlodion a'i thenantiaid, heb un sylw i bleidiau, gannoedd lawer, os nid miloedd, o fwseli o lafur, fel y bu iddi achosi gryn lawer o ddyryswch hyd y nod i'w theulu ei hunan. Gellir dirnad maint ei helusenau oddiwrth y ffordd galed y darfu iddi lwmhau ei hun a'i theulu, ac oddiwrth ddigonedd ei golud, pan ystyriom y medrai gyfrif o un o ffenestri ei thŷ chwe' ugain o dyddynod, i gyd yn eiddo ei gwr. Achubwyd bywyd llawer teulu a fuasai digon tebyg wedi trengu oni bai hi, a buont fyw i fendithio y coffa am dani hyd ddydd eu tranc. Un dyn, a adwaenai yr ysgrifenydd yn dda yn ei henaint, a elai â rhai o'i blant wedi eu rhwymo mewn blanced ar ei gefn, gyda'r amcan o'u taflu i afon Teifi, pan gwrddodd hi ag ef, estynodd help iddo, ac achubodd ef rhag cyflawnu gweithred o anobaith. "Yr oedd yn well ganddo," meddai, "eu

gweled hwy yn cael eu gwaredu ar unwaith o'u truenu, nâ bod yn llygad-dyst o'u loesion yn nghyfwng olaf newyn."

(*I'w barhau.*)

---

## BETH AM UNDODIAETH?

*(Papyr a ddarllenwyd yn Nghyfarfod Blynyddol Undodiaid Deheudir Cymru yn Nghapel-y-groes, Mehefin y 23ain, 1887.)*

GAN Y PARCH. T. LLOYD JONES, LIVERPOOL.

Y MAE cân gorfoledd cenedlaethol yn swnio yn ein clustiau. Gallem feddwl fod y milflwyddiant wedi dyfod i ben—fod dyheuadau a rhagolygon y proffwydi a seintiau Duw wedi eu gwirio a'u sylweddoli. Gallem feddwl fod

"Y dyddiau wedi d'od a ragfynegwyd gynt,
Pan gyda chylchdro'r blwyddi daw'r oes euraidd ar ei hynt;
Hoff felus gân a leinw gol y ddae'r â llawen lu,
A'r hollfyd yn adseinio'n ol bêr gân yr engyl cu."

Gallem feddwl fod hyd y nod Cymru benbaladr a'i mynyddau cribog wedi ei thrawseiddio yn dir ffrwythlawn a pharadwysaidd, ac yn llifo o laeth a mêl, dan deyrnasiad cyfiawnder a hedd, fel y cân Daniel Ddu,

"Byw ydym dan dirion lywodraeth,
Byw beunydd mewn hedd a mwyn Haf,
Ac arnom yn gwenu'n ehelaeth
Fendithion anwylion ein Naf."

Gwir, a diolch byth am hyny, eu bod yn well arnom ni heddyw, fel enwad crefyddol, nag yn amser ein cyndeidiau. Yr ydym ni yma heddyw yn cael addoli Duw yn ol ein cydwybodau, heb gael ein diystyru gan neb. Ond nid yw dyheuadau uchaf dyn etto wedi eu digoni: y mae etto lawer

"Enaid blin dan feichiau byd yn crymu tua'r llawr,
Yn dringo rhiwiau serth o hyd mewn poen a lludded mawr."

Mae yn oes derfysglyd iawn, yn llawn cynhwrf o ben i'w gilydd. Y mae y byd fel rhyw fôr berwedig, yn cael ei gynhyrfu gan yr ystorm, pan fyddo tòn yn ymgynddeiriogi yn erbyn tir, ac yn "taflu hyd y sêr yn ei gorwyllter ei dagrau heilltion," a phan na fyddo y llongau mwyaf eu maint ond megys teganau i chwareu ar ei brigau, er goreu dyfais gywreiniaf dyn. Felly mae y byd—cenedl yn ymrafaelio yn erbyn cenedl, teyrnas yn ymryson am orchafiaeth ar deyrnas, talaeth yn

erbyn talaeth, ac nid yn anaml, dyn yn erbyn ei dy ei hun, nes y mae person unigol yn cael ei daflu hwnt ac yma yn ddidrugaredd fel gwellt-yn ar lif yr afon, heb le i droi na gallu i ymwrthod, ac nis gall ond codi ei lais a llefain, "Arglwydd, pa hyd?" Y canlyniad yw, fod brenin-oedd ac ymherawdwyr yn crynu ar eu gorseddau, cyfansoddiadau llywodraethau yn cael eu dadymchwelyd a'u dadwneyd yn y byd gwleidyddol; hen sefydliadau a rhagorfreintiau oeddent yn gyfyngedig i bersonau neu ddosparth neillduol yn cael eu dwyn i gyfrif, a chymdeithas yn teimlo fel pe byddai ei seiliau yn siglo. Ni chynhyrfwyd Rhufain fawreddog erioed yn fwy gan ruthriadau y Gothiaid a'r Vandaliaid gynt nag y mae rhengau yr Eglwys Gristionogol yn cael eu cyffroi yn y dyddiau hyn gan fygythiadau anfoesgar ac eofn y gwyddonau. Y mae hen gredöau a thraddodiadau a daliadau yn cael eu dwyn o flaen llys rheswm a gwybodaeth, ac yn methu sefyll y prawf, ac yn cael eu condemnio gan y gydwybod oleuedig, ac y mae crefyddwyr o bob enwad braidd mewn pryder mawr—o'r Archesgob ar ei orsedd hyd at y ciwradyn a'r Jack pen stol mwyaf distadl, ac yn ofni fod crefydd i gael ei hysgubo allan o'r byd gan lif o Inffideliaeth o'r fath fwyaf aruthrol!

Y cwestiwn sydd yn gofyn ein sylw ni yn fwyaf neillduol yn awr ydyw, Pa beth am Undodiaeth yn nghanol y terfysg a'r cythrwfl? Nis gwn a oes neb o edmygwyr y *Celt* yn bresenol ai peidio, yn y gobaith o gael adeiladaeth yn nghylch ffermwriaeth, trwy glywed Undodiaid, yn ol eu harfer, fel y tybid, yn ymgynghori yn nghylch "dadansoddiad baw adar" neu "*guano*." Os oes, drwg genyf ei siomi. Mae achlesu tir yn bwnc pwysig y dyddiau hyn, pan y mae amaethyddiaeth yn talu ei ffordd mor wael, ac yr wyf yn beiddio dweyd fod yn bresenol yma Undodiaid a allant siarad mor hyddysg â neb yn y wlad ar natur *guano*. Ond nid dyna ddyben ein cyfarfod: y mae pwnc yn nes at ein calonau am y foment hon, pa beth bynag. Os oes rhai o ohebwyr y *Celt* yma, bydded iddynt oleuo ei ddarllenwyr goleuedig ychydig trwy eu hyspysu ein bod ni, fel Undodiaid, o'r argyhoeddiad, fod un peth, o leiaf, yn fwy budr, aflan, a bawaidd, ac an-Nghristionogol hefyd, nâ thrin achles tir mewn cyfarfod crefyddol; h.y., enllibo a phardduo cymmeriadau ein cyd-ddynion, heb roddi iddynt y cyfleusdra a ga pob drwgweithredwr i amddiffyn eu hunain o daen yr un llys.

Y mae Undodiaid hyd yn hyn wedi cael eu galw yn hereticiaid ac Inffideliaid. Ffordd rwydd a chyffredin iawn i ateb gwrthwynebydd yw gwaeddi yn groch yr enwau casaf a fedd iaith. Dyma noddfa pob *coward* er dechreu amser braidd pan fyddo yn methu dwyn rheswm dros y ffydd ag sydd ganddo i argyhoeddi ei wrthwynebydd. Credaf na fuasai i Calvin losgi Servetus pe gallai ei ateb yn foddhaol ag ymresymiadau teg. Pan fyddoch yn cyfarfod â chi heb ddannedd ganddo, nid ydych yn petruso myned rhag eich blaen yn ddiofn, heb wneyd sylw o hono fwy nag a wna y gerbydres o'r corgi sydd yn cyfarth arni ar y ddol.

"Nid yw'r diafol mor ddu ag y paentir ef," medd un ddiareb; ac yr wyf yn meddwl fod arwyddion gerllaw yn eglur ddangos nad yw Un-

dodiaeth mor ddu ag y bu yn ngolwg y byd. Pa beth bynag am hyny, boed i ni fod yn ffyddlon i'n hargyhoeddiadau, er gwg a gwawd a sèn, ac ymgyssuro yn y ffaith fod llawer i sant cyn heddyw wedi ei ddifenwi yn heretic yn ei ddydd, ac nad ydym mewn cwmpeini hollol ddianrhydedd wedi'r cyfan. Y mae yr Undodiaid wedi eu damnio cyhyd ac mor aml, nes y mae poethder y fflamiau a *smell* y brwmstan, bellach, wedi colli eu heffaith i'w dychrynu!

Yr wyf fi yn ei deimlo yn bleser ac yn anrhydedd, er mor annheilwng, i gael fy ngwahodd genych megys i ben tŵr o wyliadwriaeth, a cheisio datgan arwyddion yr amserau. Nid wyf yn cymmeryd arnaf i fod yn llygadlym iawn i weled y galluoedd sydd ar waith yn uniongyrchol o'n hamgylch (a llai fyth i weled dirgelion y dyfodol); ond ceisiaf, yn ol fy ngallu egwan, osod ger eich bron argoelion llwyddiant ac aflwyddiant ein henwad yn yr awyrgylch crefyddol, a pha beth yw ein dyledswydd yn ngwyneb y cyfryw, er mwyn sicrhau os yn bossibl y naill ac osgoi y llall.

Ar yr amser presenol, y mae Eglwys Sefydledig ein gwlad yn cael ei therfysgu yn enbyd gan ymraniadau tufewnol. Sylwaf ar ddwy blaid eithafol yn unig—yr Eglwys Lydan *(Broad Church)* a'r Uchel Eglwyswyr *(Ritualists)*. Y mae enw y gyntaf yn bur darawiadol. Mae y drws yn agored led y pen; rhoddant roesawiad i bawb ag sydd â safn eu meddyliau yn ddigon llydan i lyncu camelo l o erthyglau os bydd *stamp* yr ystad arnynt, ond rhaid hidlo'r gwybedyn lleiaf os bydd rhywfaint o flas a sawr Annghydffurfiaeth yn perthyn iddo. Yn ol eu tyb hwy, y llywodraeth yw'r offeryn iawn i gymmeryd y gorchwyl o osod i lawr, neu *i fyny* yn hytrach, yn mhob plwyf, er adeiladaeth ysprydol y trigolion, un dyn o leiaf ag sydd ar unwaith yn "foneddwr ac yn ysgolhaig." Ond fel y mae gwaethaf y modd, nid ydyw yr "awdurdodau y sydd" bob amser yn llwyddo yn eu dymuniadau da, os gwir yr hyn a ddywedodd un o honynt—Sidney Smith—am ei frodyr offeiriadol pan oeddynt wedi ymgyfarfod i ystyried y cwestiwn o balmantu rhyw ystryd â phren yn lle cerryg. Dywedodd wrthynt mai gorchwyl pur hawdd oedd—nad oedd eisieu iddynt ond rhoddi eu penau yn nghyd i gael digon o brenau i wneyd hyny! Digon possibl fod yr holl hil bregethwrol yn meddu gormod o'r cymmeriad urddasol hwn; ond y mae yn resyn meddwl fod y ciwradyn mwyaf prenaidd yn cael ei ddyoddef i edrych i lawr gyda gwawd a dirmyg ar y gweinidog Annghydffurfiol—yr hen dad parchus yn y gymmydogaeth lle y mae wedi bod yn arweinydd ac yn gyssur i'r trigolion, o bossibl, cyn i'r "boneddwr a'r ysgolhaig" gael ei eni, a hyny yn unig drwy eu hunanoldeb, ei fod yn un o'r olynwyr apostolaidd, trwy gael ei appwyntio gan yr Esgob—swyddog arbenigol yr ystad!

Ymddangosodd yr hyn a ganlyn yn y *Christian Life* am Mehefin y 18fed, wedi ei ddyfynu o'r *Christian World*:—"Curad a hen wraig dros 60 oed a berthynai i'r Trefnyddion Calfinaidd. 'A gawsoch chwi eich confflrmio?' 'Naddo.' 'A ydych yn cymmuno?' 'Cymmuno! ydwyf.' 'Yn mha le?' 'Yn nghapel y Methodistiaid.' 'O, nid yw yn un daioni yn y byd: ni wna Duw ei dderbyn os na fydd wedi ei roddi gan un

wedi ei appwyntio gan yr Esgob. Byddai yn llawn cystal i mi wisgo cot goch, a galw fy hun yn filwr, ag i'r dynion hyn alw eu hunain yn weinidogion.'" Mae yn llawn bryd i ryw fabanoiddiwch ac ofergoeliaeth felly ddarfod allan o'r byd.

Sefydlwyr plaid yr Eglwys Lydan oeddynt y diweddar Esgob Colenso, Deon Stanley, a'r Parch. Stopford Brooke. Enwogodd y cyntaf ei hun trwy wadu ysprydoliaeth ac anffaeledigrwydd llyfrau Moses; yr ail trwy ei wrthwynebiad di-ildio i ddarlleniad credo St. Athanasius, fel ei gelwir, o gydymdeimlad ag Undodiaid yn Symmudiad yr Eglwys Gristionogol Rydd (*Free Christian Church Movement*) yn Llundain; a'r diweddaf, mwy enwog fyth, efallai, trwy ei ymddidoliad o eglwys ei dadau, ac uno â ni, fel enwad Undodaidd. Y mae iddynt heddyw amryw ganlynwyr galluog, ond llai eu nod, megys y Parch. H. R. Haweis, Canon Freemantle, a Dr. Abbot. Cyfeiriaf yn fyr at eu daliadau mewn braslun, yn enwedig yr olaf, yr hwn sydd wedi cyhoeddi llyfr yn ddiweddar dan yr enw, *Cnewullyn a'r Plisgyn (Kernel and the Husk)*. Dywed yn eglur fod pob un o'r erthyglau yn rhwymedig ar bob offeiriad yn yr Eglwys, yr hyn ddysgwyliem sydd ddealledig gan bob dyn cydwybodol pan fyddo yn eu llawnodi. Dywed yn mhellach, mewn effaith, fel hyn:—Meddyliwch fod dyn ieuanc talentog yn awyddu myned yn offeiriad, ond ei fod yn gwadu rhai o'r gwyrthiau—yn methu credu fod Joshua wedi peru i'r haul neu i'r ddaear sefyll ar ei gyrfa aruthrol, methu credu fod asyn Balaam wedi siarad â llais dynol, na ddarfu i fwyell y Proffwyd Eliseus nofio ar ddyfroedd yr Iorddonen. Y cwestiwn yw, A ddylai ef fyned yn offeiriad yr Eglwys? Dylai, medd Dr. Abbot, os yw yn teimlo fod ganddo neges i bregethu gwirioneddau ysprydol yr Efengyl. Yma yr ydym ni, fel Undodiaid, yn gwahaniaethu yn hollol oddiwrth y blaid hon a'i harferiadau, yn yr annogaeth ac mae nhw'n roddi i danysgrifio credoau, yn enwedig os na fyddant yn eu credu, yn cymhell dynion i ddweyd celwydd ar un foment er mwyn cael cyfleusdra i ddweyd y gwir y foment nesaf; yr egwyddor o wneuthur drwg fel y dêl daioni ydyw, ac nis gellir ei chyfiawnhau. Nis gallwn gymmeradwyo tanysgrifiad i unrhyw credo, ac yn condemnio yn y modd cryfaf yr annghyssondeb yma rhwng gair a'r ffaith, a gwrthddywediad rhwng y llaw a'r gydwybod. Yr ydym yn credu yn hytrach yn esiampl y ferch fechan, pan geisiodd ei rhieni ganddi ganu,

> "Arglwydd tirion, gwna drugaredd,
> Dwg ni'n fuan i Dy anedd."

"'Dw' I ddim am farw a myn'd i'r nefoedd, etto, gwell gen' I fod yma gyda chwi, ac nid wyf yn credu y dylwn I ganu yr emyn." Yr ydych, yn ddiamheu, yn cofio'r 'stori am Squire y Dolau, yn dychwelyd o saethu brain ar foreu dydd Sul, pan y cyfarfu â'r offeiriad, a gofynodd, "A oedd drwg saethu brain ar y Sabboth?" "Wel, syr, y mae'n ddrwg iawn i'r brain, druain bach." Yna, cyfarfyddodd â'r hen dad o Gastell Hywel, os cofiwyf yn iawn, a gofynodd yr un cwestiwn, a chafodd ateb lled fuan. "Drwg! oes, drwg mawr hefyd, ac fe wydd-

och chwithau hyny, syr, yn eithaf da, yr hyn sydd yn gwneyd y weithred yn waeth fyth." Dyna'r yspryd sydd eisieu dywallt—dewrder moesol—i ddweyd beth ydym yn feddwl, a meddwl yr hyn ydym yn ddweyd, nes y byddo gair y genau yn gysson ag argyhoeddiad y gydwybod a'r deall. Gwell genyf fi fil o weithiau y dyn didwyll, er euled ei farn, a ddywedo allan ei fod yn credu yn gydwybodol ein bod yn golledig, o herwydd ein barn grefyddol ni; "boneddwr ac ysgolhaig" sydd yn sefyll i fyny o flaen Duw a dyn, ac yn darllen mewn tôn ddifrifol iawn, trwy bob ymddangosiad allanol, y credo sydd yn ein damnio i'r golledigaeth dragwyddol, ac yn y fan yn dweyd nad yw yn credu un tipyn o honi!

*(I'w barhau.)*

---

## TREULIO'R GWYLIAU.

Mae y *Christian World* am Gorphenaf 21, yn awgrymu fod yn y fynwes ddynol reddf gynenid sydd yn arwain dyn i grwydro yn y tymhor hwn o'r flwyddyn; greddf gyffelyb i'r un sydd yn peru i'r wenol grwydro yn ddiweddarach. I ffwrdd! i ffwrdd! medd y reddf, i ffwrdd i'r mynyddau neu i lân y môr. Y mae lle i amheu pa un fwyaf dan orfod, ynte, o ddewisiad, yr oedd y cenedloedd boreu yn ymwasgar; yn rhanol, feallai, dan ddylanwad y ddau. Ond, nad pa un weithredai, yr yspryd ymchwilgar anturiaethus, ynte, yr ymollyngiad i roi ffordd i genedloedd ereill ymwasgar arnynt, yr un fydd y canlyniad, cryfhau y reddf. Mynai yr hil ddynol unwaith wrthweithio y reddf, a gosod i fyny eu tŵr Babel yn gynnullfan yr holl genedloedd; ond yr hyn a fynai Rhagluniaeth oedd ffordd rydd i'r reddf.

Ceir manteision crwydro rhwydd a hynod rhad heddyw, mewn cymhariaeth i'r hyn oedd profiad y tadau. Os bydd gan ddyn boced weddol fach y dyddiau presenol, mae cwmpeini y rheilffyrdd yn garedig. Wedi gwrando ar y reddf, a meddiannu tocyn trên, aeth ysgrifenydd y llinellau hyn, ar ol ymryddhau o'i *harness*, i ffwrdd i chwilio am newid awyr, newid bwyd, newid cyfeillach, i Sir Aberteifi. Cyrhaeddodd Llanbydder, y man pellaf y dygai y trên, heb un dygwyddiad o bwys. Cafwyd yno olwg ar wynebau siriol amryw gyfeillion—yn nghyd â bwyd a groesaw, ac nid oedd yno un diffyg yn yr archwaeth ato, fel yr oedd argoel dda am gyflawniad o weddi Shakespeare,

> "May good digestion wait on appetite,
> And good health on both."

Wedi boddio felly ofynion y corff, cychwynwyd yn fintai gref gyda'r cerbydau, nid *ynddynt* etto; yr oedd yn rhaid cerdded yn groes i'r afon, gan fod y bont wedi ei hysgubo i ffwrdd gan y llifeiriant yn ystod y gauaf, a'r bont newydd heb fod yn barod. Ein tynfa yn bresenol oedd at Gapelygroes—i'r uchelwyl gyfarfod. Ni fynylaf yn nghylch yr wyl yn mhellach na dywedyd iddi droi allan i bob ymddangosiad yn ffafriol

yn mhob ystyr—y gwrandawyr yn lluosog, y gwrandawiad gydag ychydig eithriadau yn astud, a'r pregethu yn hwyliog iawn. Gobeithiaf fod y pregethwyr wedi hau yn weddol dda, edrych y gwrandawyr at y dyfrhau, fel byddo ganddynt le i obeithio am y cynnydd oddiwrth yr Arglwydd.

Ardal *noble* sydd oddiamgylch Capelygroes, ac oddiyma i fyny i Lanbedr, ac y mae'r trigolion yn deilwng o'r ardal. Yr oedd rhai, fodd bynag, mewn pryder y pryd yma, o herwydd arwerthiad oedd i gymmeryd lle yr wythnos ganlynol. Gobeithiaf, erbyn heddyw, fod y mwyafrif ar y cyfan wedi eu boddio, ac y cant bellach drwy weddill y daith fyw yn dawel eu meddwl yn y meddiant o'u hen gartrefleoedd.

Gyda hiraeth, fel arfer, y gadewais ddyffryn prydferth y Teifi a'r trigolion serchog, am Aberystwyth. Gesyd awelon balmaidd bryniau Ceredigion fin ar yr ystymog, nes gwneuthur fod pob bwyd yn flasus ac yn felus. Ar y daith heddyw pasid heibio i'r

"Cribog fryniau a phen y Gaer,"

y canai yr hen Ddafis am danynt, ac yn ngolwg peth o'r tir a berthynai i'r Goetre, lle y ganwyd ef,

A'r *Diwlas* ddu yn ngodre'r ddol,
Yn mynych droi o lan i lan,
Heb fedru myn'd o'r hyfryd fan,
Heb edrych lwyr ei hol.

Pasir heibio amryw leoedd a gofnodir mewn hanes. Dacw dŵr Dery Ormond, lle yr wyf yn cofio rhostio ych flynyddoedd meithion yn ol, ar adeg dyfodiad un o'r etifeddion i'w oed. Clywaf fod hwnw, a mab i hwnw ar ol cyrhaedd ei oed—ill dau wedi croesi'r hen afon, a bod y trydydd yn awr yn y meddiant o'r *estate*. Felly, mae'r byd yn myn'd, ac y mae'n rhaid i ninau fyn'd. Pasio Tregaron, Cors Caron, Tomen Lanio, Ystrad Fflur. Gerllaw yma, dywed un traddodiad fod Dafydd ab Gwilym wedi ei gladdu; er mae tebycach, feallai, ei fod wedi ei gladdu yn Nhal-llycheu. Tua'r gymmydogaeth yma bu Twm Sion Cati yn chwareu ei ystranciau, ac heb fod yn mhell, y mae yr ogof sydd yn myned wrth ei enw. Cyflawnodd Dewi Sant lawer o'i wrhydri yn agos yma. Yn yr ymyl, ar yr aswy, y mae Ystradmeurig, lle'r ydwyf yn cofio cael caredigrwydd ar law y prif athraw ugain mlynedd i leni; a'r lle y bu Edward Richard yn cadw ysgol, ac yn canu ei fugail-gerddi; ar y dde y mae Pontrhydfendigaid, am yr hon y mae Cranogwen wedi canu; a'r tucefn a'r ochr draw mae y Rhos lle cynnelir ffeiriau, ac ychydig yn mhellach etto y mae'r llynoedd lle mae afon Teifi yn cael ei dechreuad. Yn yr Eglwys y mae copi o'r hen Feibl mewn llythyren ddu. Nid yw eich gofod yn caniatau i mi ragor nag enwi y ddau Fonachdŷ. Ceir llawer o weddillion un o honynt yn aros hyd heddyw.

Ond dacw'r trên yn myned etto, er fod yn rhaid i ni gael dywedyd gair am y gadair a ddangosir yn y Bont, cadair a ddarparwyd gan un

o Fychaniaid y Trawsgoed at wasanaeth Iolo Morganwg—cadair esmwyth i Iolo gysgu ynddi, gan na allai fyned i'r gwely o herwydd y fogfa. Fel hyn y canodd ein hen gyfaill Gwilym Gwenog i'r fogfa :—

Mae genyf waith megino—a chwythu
Chwe' wyth waith cyn cyffro ;
A'm anadl yn drwyadl aml dro,
A'i phegwn ar ddiffygio.

Pasio'r Trawsgoed, lle treuliodd Iolo lawer o'i amser yn copio hen ysgrifau. Gallaswn ysgrifenu llith hir am Aberystwyth, ond gan nad wyf yn bwriadu aros yma, gadawaf hyny heibio, ac af yn y blaen—at y Borth.

Cwrdd â'r teulu yma. Dewis *lodgings*. Tê wedi'n, ac wedi'n edrych beth sydd i'w weled. Tywydd ffafriol. Môr dymunol. Traeth tywodog, gwastadlyfn. Troi i fewn am y nos, a chystal, feallai, tori i fyny y llith yn y fan yma hyd y tro nesaf. S. N. S.

---

## NODYNAU GWASGAROG.

Mae ganddynt emyn yn Ysgolion Sul y Saeson, lle mae'r plant yn canu,

"'Rwyf am gael bod yn angel,
A chyda'r engyl fyw," &c.,

ac yr wyf yn meddwl fod rhywbeth yn *rotten* yn y *system* sydd yn dysgu'r plant i ganu peth felly. Nid yw y peth yn wir yn gyffredinol, ac os ydyw yn wir, gwaeth fyth. Pa synwyr sydd fod plentyn yn awyddu bod yn angel ? Pa synwyr fod athraw yn dysgu plentyn i ganu peth nad yw wir, peth na ddylai fod yn wir ? Dyledswydd cyntaf plentyn yw bod yn blentyn, bod yn naturiol, dywedyd a charu y gwir. Ein dymuniad ninau ddylai fod, fod ein plant yn blant, ac wedi hyny yn ddynion ; yn gyntaf, yn blant da ; ac wedi hyny, yn ddynion da. B. C. D.

---

### BYWYD DUW YN ENAID DYN.

Mae yn hyspys i'n darllenwyr ddarfod i'r Parch. D. Davis, Castell Hywel, gyfieithu gwaith enwog Scougal i'r Gymraeg dan yr enw uchod. Carant wybod ychydig yn rhagor nâ'r ffaith syml hwn, feallai. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf yn 1779, a'r ail yn 1799 ; nid ydym yn gwybod fod cyfieithad diweddarach. A oes rhywun a ddywed wrthym o ba argraffiad Seisnig y gwnaethpwyd y cyfieithad ? Diwygiwyd peth, mewn ystyr dduwinyddol, ar y gwreiddiol, gan Dr. Tonlmin, yr hwn oedd Ariad. Byddai yn ddyddorol cael gwybod ai cyfieithad o'r gwreiddiol, ynte o ddiwygiad Dr. Tonlmin, oedd eiddo Mr. Davis. A ydyw ein cynnulleidfaoedd mor gyfarwydd yn ngweithiau yr hen Ddafis ag y dylent fod ? Sylwer nad yn Llundain yr argraffwyd "Telyn Dewi" y waith gyntaf. Fe'i *argraffwyd* gan F. Fagg, yn Abertawe (1824), fe'i *cyhoeddwyd* yn Llundain. Nid pawb sy'n gwybod mai enw tad Mr. Davis oedd Timothy Jacob. Mr. W. D. Jeremy

ddarfu gyntaf gyfeirio ein sylw at y ffaith hwn, ar sail llyfr eglwys y Cilgwyn; gwelsom gadarnhad o hyny wedi'n yn nyddiadur y Parch. Tim. Davies, Caeronen. Byddai yn ddyddorol gwybod yn mha le y claddwyd T. J., a pha un a oedd efe wedi cymmeryd y cyfenw Davis cyn ei farw. Bu farw Medi, 1795, yn 83 mlwydd oed. Dafisiaid oeddynt y plant i gyd. S.N.S

---

Paham y ceisir dyrchafu y byd nesaf trwy ddibrisio y byd hwn! Mae y ddau dan yr un llywodraeth. Onid ydym wrth ddibrisio hwn yn taflu anmharch ar yr awdwr o hono? Baich y dduwinyddiaeth boblogaidd yw, fod y byd hwn dan felldith, ac na fydd dim gwir fwyniant nes myned allan o hono. A dyma'r teimlad sydd wrth wraidd y gofyniad, ar y naill law yn ngenau yr *orthodox* tybiedig, ac ar y llaw arall yn ngeneu y *pessimist* annghrediniol.—Is life worth living? Mae yn ein llaw ac yn ein gallu ni i wneuthur bywyd yn werthfawr. Edrychwn at ein dyledswydd. Mae Iolo ambell waith megys yn colli golwg ar ei ffydd ddysglaer, er enghraifft:—

Mae'm dyrys daith ar hyd
Gerwindeb o bob rhyw,
A'r prawf yn dost ar hyn o fyd
Mae carchar tywyll yw.

Ceir Iolo fynychaf yn llawn hyder a ffydd, a gobaith dysglaer; pan yn gweled bwa gobaith, a phan dan y cwmmwl mae yn gweled yr ymyl oleu. B.C.D.

---

CYSTADLEUAETH Y DEG EMYN.

Rhif yr ymgeiswyr yw 32. Carem pe byddent 500. Ond nid yw o un dyben oedi yn hwy. Gyda mor ychydig o gystadleuwyr mae y gystadleuaeth yn cadw yn rhy wasgaredig, a phob emyn yn cael rhy fach o bleidleisiau. Nid ydys wedi penderfynu y "deg" mwyaf dewisol, gan fod pedwar emyn wedi cael yr un nifer o bleidleisiau. Felly, yr hyn sydd genym yw

*"Y deuddeg emyn dewisol" allan o "Emynau Mawl a Gweddi,"*

a dyma hwy,—9, 67, 96, 140, 147, 176, 181, 201, 210, 211, 341, 350. Cafodd 140 y bleidlais uwchaf, sef 11; cafodd 96, 147, 201, ddeg o bleidleisiau; rhoddwyd 9 i 211 a 350; 7 i 176 a 341; 6 i 9, 67, 181, 210. Dyna'r deuddeg. Rhoddwyd pump pleidlais i 14, 31, 92, 193, 212; a phedwar pleidlais i 5, 15, 27, 39, 55, 59, 118, 120, 156, 299, 374; ond y mae y rhai hyn, wrth gwrs, allan o'r gystadleuaeth. Y mae tri o'r cystadleuwyr wedi nodi saith allan o'r deuddeg, a'r tri goreugwyr ydynt D.E.J., J.H.D., W.H., oll o Gefncoed. Saith J.H.D. ydynt 9, 140, 147, 201, 211, 341, 350; saith D.E.J. ydynt 9, 96, 140, 147, 176, 201, 341; saith W.H. ydynt 67, 140, 147, 201, 211, 341, 350. Nodwyd 6 o honynt gan L.H., H.M., E.D.; 5 gan S.D.; 4 gan

A.G.J., J.D.J., T.H.T., F.D., E.D.H.; 3 gan D.J., M.A.D., E.L., D.T., W.J., Mrs. J. Tra y mae 5 wedi methu spotio'r un o'r deuddeg dewisol. Y mae un gohebydd, wrth anfon i'r gystadleuaeth, yn gwneuthur y sylwadau hyn:—"Nid wyf yn ystyried fy newisolion ar y blaen mewn ystyr feddyliol a threiddgar, ond yr wyf yn eu gosod i lawr fel rhagorolion yn yr hyn y golygir emyn i fod, sef i waredu'r meddwl oddiwrth ofalon a thrallodion y byd hwn, a'i arwain i obeithio ac i ddychymygu am hafan ddymunol pan fyddo mordaith bywyd wedi gorphen." Mae y gohebydd hwn wedi spotio 96, 201, 211, 350, allan o'r deuddeg. Daeth eiddo T. J. yn rhy ddiweddar i law,—y mae efe wedi nodi 96, 140, 176, allan o'r deuddeg.

---

A ydyw yn ddyledswydd arnom, a ydyw yn bossibl i ni, garu y byd arall yn fwy na hwn? Credwn fod llawer o'r siarad ar y pwnc yn ffugiol ac yn Phariseaidd—*a sham, a delusion, and a snare.* "'Dwyf fi ddim am fyned o'r byd hwn, 'does arna i ddim awydd myned i'r byd nesaf, yr wyf fi yn caru'm lle yn y byd hwn," ebe Mr. A. B., yn ddiweddar yn y seiat. Tybiai rhai o'r brodyr ei fod yn rhyfygu ac yn pechu. Haerai yntau ei fod yn dadgan ei deimlad ac yn dywedyd y gwir; y gallent hwy siarad fel y mynent, tra'r ymddangosai'r genad olaf yn mhell, ond pan osodai ei law ar eu hysgwydd, ac y dywedai, dos frawd, y byddai eu siarad yn wahanol. Onid dadganiad o'n diolch i Dduw yw ein gwerthfawrogiad o ragorfreintiau y bywyd hwn? Nid tebyg y gwna Duw gymmeradwyo dyn yn fwy oblegyd ei fod yn dibrisio ei roddion. Mae llawer o ddynion yn rhy debyg i'r plentyn bach sydd yn beio ei degan, ac yn ei ddibrisio, ac yn begian am un arall. B.C.D.

---

Mewn ufudd-dod i gais y Parch. T.T., wele grynodeb o'r sylwadau gwasgaredig a drad lodwyd genyf yn Nghapelygroes, wedi eu crynhoi i gwmpas bychan. Y testun a welir yn Hebreaid xii., 16, "Megys Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint." Wedi cymharu *caracter* Esau a Jacob, a nodi achlysur y geiriau, fel y mae yn cael ei amlygu yn Genesis xxv., dywedwyd fod ffolineb cyffelyb i eiddo Esau yn cael ei gyflawnu yn rhy fynych yn y dyddiau presenol, ac y dylai pobl ieuainc, yn neillduol, fod ar eu gwyliadwriaeth, i beidio aberthu pleserau parhaol y dyfodol i bleserau munydol y presenol; i beidio gwneuthur bara a chaws, neu swm o arian, neu glod dynion yn brif bwnc bywyd; ond i roddi y gofal dyladwy i'r oll o fywyd, i geisio am feddwl iach mewn corff iach, i ddiwyllio a dadblygu y galluoedd meddyliol, a meithrin y natur ysprydol, i gymmeryd gofal priodol o'r byd hwn a'i ddyledswyddau, heb anughofio fod dyledswyddau y bywyd hwnt yn gymhlethedig â hwy o'r dechreu i'r diwedd. Ystyrier y rhybudd, a pheidier a bod "megys Esau," mor barod i werthu, &c. R. J. J.

Dyddorol iawn yw y ffrwgwd yn y *South Wales Daily News* mewn perthynas i bennodiad y Dr. Cynddylan Jones i swydd bwysig a phroffidiol o dan y Feibl Gymdeithas. Fe gyhuddir yr awdurdodau o weithio y gymdeithas yn *interest* y Methodistiaid Calfinaidd, i'r rhai y rhoddir y *big plums* i gyd. Fe gesglir at y gymdeithas gan bob enwad, tra y cyfyngir y swyddau i'r Methodistiaid. Fe ddywed y Methodistiaid nad yw y gymdeithas yn enwadol, tra y cyfyngant y *profit* i aelodau eu cyfundeb eu hunain. Mae rhai Annibynwyr yn cynghori gadael y gymdeithas i'r Methodistiaid, a chadw eu cyfraniadau at ryw bwrpas arall. B.B.

---

CRYNODEB O BREGETH Y PARCH. J. HATHREN DAVIES.

"*A alwyd yn Saint.*"—1 Cor. i. 2.

Dywedai nad oedd o angenrheidrwydd un berthynas rhwng bod yn sant a daioni, yn ein ystyr ddiweddar ni o'r gair. Dywedai mai ystyr y gair "sant" yw un sydd wedi ymgysegru,—un wedi ei neillduo at wasanaeth rhyw dduw. Ond mae p'un ai da neu ddrwg yw sant yn ymddybynu yn fawr ar yr *ideal* sydd gan ddyn am y duw mae yn addoli, oblegyd y mae yn ddeddf naturiol ein bod ni yn cydymffurfio a delw yr *ideal* a fyddo uwchaf yn ein meddyliau. Yr hyn y meddyliwn fwyaf am dano yr hyn a edmygwn ac y dysgwn ei garu a'i barchu, mae ganddo y fath allu ar feddwl a bywyd, nes y mae yn ein llunio i'w ddelw ei hun. Mae saint y byd Cristionogol wedi amrywio fel yr *ideal* o Dduw yn gwella yn nghwrs dadblygiad dynol. Portreadent Dduw yn ol y syniadau uwchaf ag oedd ganddynt am dano. Credai y pregethwr fod y dyn sydd yn rhoi ei hunan i geisio codi safon cymdeithas ddynol, i dori hualau gormes, a thynu lawr ganol-furiau y gwahaniaeth sydd yn ysgaru dynion oddiwrth eu gilydd, yn sant gwirioneddol i Dduw. Y dynion ydynt wedi bod yn gweithio ar faes y byd, gan ddadleu dros ryddid a chyfiawnder,—Lloyd Garrison yn areithio dros ryddid y caethion yn America, a Gladstone dros ryddid y Gwyddelod, —maent i gyd yn saint. Os ydym ni yn ceisio bod yn saint, bydded i ni chwilio am y cyfle i fod felly yn ein bywydau cyffredin, b'le bynag yr ydym wedi cael ein gosod gan y Duw byw.

---

# Manion a Hanesion.

Y mae Mr. D. Lleufer Thomas, o Cefn-Hendre, ger Llandilo, newydd basio yn llwyddiannus ei arholiad olaf yn Rhydychain, mewn gwybodaeth o'r gyfraith (*Honours Jurisprudence*), ac fel canlyniad ca y radd o B.A. Tua blwyddyn yn ol, etholwyd Mr. Lleufer Thomas, yn Tancred *scholar* yn Lincoln's Inn, Llundain, ac y mae yr ysgoloriaeth hono yn werth £100 y flwyddyn am 6 mlynedd. Y mae ein

cyfaill yn Gymro cenedlgarol i'r gwraidd, ac yn Rhyddfrydwr trwyadl, a deallwn ei fod yn aelod blaenllaw o Gymdeithas "Cymru Fydd" yn Llundain. Y mae yn nai i'r Parch. T. Evans (Tomos Glyn Cothi), gynt gweinidog parchus yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, a chredwn fod cryn lawer o yspryd Rhyddfrydig ei hen ewythr wedi disgyn arno yntau. Llwyddiant mawr iddo yn y dyfodol etto fel bar gyfreithiwr.

Mae byddin Iachawdwriaeth wedi dechreu ar ei gwaith yn Khufain.

Darfu i Dr. Meredith adrodd yn ddiweddar hanesyn am ei fam, sydd yn dangos nerth emyn, Yr oedd bywyd yr hen wraig yn cyflym lifo ymaith, ac mewn poen annirnadwy, ac ebe'r mab mewn llais trist, "Mam anwyl, paham y mae Duw yn caniatau i chwi ddyoddef felly." Atebodd hithau yn dawel,

Gwyro mae dychymmyg dyn
Heb gymhorth Dwyfol ffydd,
Gadawn i Dduw esponio'i hun
Try ef y nos yn ddydd.

Mae Dr. Edwards, cyfieithydd yr emyn hwn (46) newydd farw. Ganwyd ef Hydref 1809; bu farw Gorphenaf 18.

Mae yr *Inquirer* wedi cyhoeddi amryw wrthdystebau yn erbyn gormesu yr Iwerddon, tra y mae rhai wedi dadgan eu syndod fod gweinidogion yn anfoddlon i'r Sais i ormesu y Gwyddel.

Gwelwn hyspysiad fod capel newydd Caerdydd i gael ei agor Awst 3.

Barna rhai mai yr efengyl wedi ei phregethu yn ffyddlon yw y feddyginiaeth oreu rhag y clefyd hwnw sydd yn bygwth hawddfyd ein eglwysi— sef difaterwch.

## POSTCARD SYMPOSIUM.

A wnaiff ein gohebwyr gymmeryd i fyny y pwnc erbyn rhifyn Medi o "gystadleuaeth yr Emynau." Heb ddymuno cyfyngu ar ryddid neb, carwn awgrymu y pwnc o elfenau emyn da, yn nghyd a'r nodweddion hyny o emyn ydynt fwyaf mewn ffafr. Pa mor bell mae y gystadleuaeth wedi dyfod i fyny a'r dysgwyliad?

Mewn nofel ddiweddar y mae'r awdwr wedi awgrymu fod y meddyg yn fwy defnyddiol i ddyn na'r offeiriad neu'r pregethwr. Pob un i'w le, debygwn!

Nid yw yn canlyn, os nad oes poenau tragwyddol, nad yw pob drwg yn dwyn ei gosp a'i ganlyniadau.

Mae hanner afiechyd, a mwy na hanner annedwyddyd bywyd yn deilliaw oddiwrth y diffyg o deimlo dyddordeb byw mewn rhywbeth allanol—mewn rhywbeth i gario y dyn allan ac oddiwrtho ei hunan.

Os oes arnoch eisieu gwybodaeth, rhaid i chwi weithio am dano; neu fwyd, rhaid i chwi weithio am dano; neu bleser, rhaid i chwi weithio am dano. Daw pleser trwy waith, nid trwy hunan-foddineb a diogi. Pan ddaw dyn i garu gwaith, mae ei fywyd yn un dedwydd.

Ni allwch ddechreu yn rhy gynnar i addysgu plentyn. Gynted y gwyr y plentyn nad all orchfygu wrth lefain, nad yw parhad mewn ystyfnigrwydd drygionus yn sicrhau ei amcan iddo, bydd wedi dysgu y doethineb i ymostwng. Ac y mae ei fuddugoliaeth yn barotoad gwerthfawr ar gyfer rhagor. Ni fydd y frwydr nesaf mor boeth nac mor hir.

Dichon i ni waredu ein hunain o'r gair credo, ond dim byth o'r peth. Mae yn anmhossibl i'r meddwl dynol beidio meddwl, nes gallwn amheu ein bod yn meddwl, heb o leiaf feddwl amheuaeth. Mae y rhai a wadant gredo, wrth wadu yn gwneuthur credo.

Fe ymddangosodd y paragraff canlynol yn ddiweddar yn y *Weekly Mail*:—

"J. H. M. (Ripley, Derby). — You will find *Yr Ymofynydd* (Aberdare), *Yr Haul* (Carmarthen), and *Y Traethodydd*, to be good Welsh Magazines. The first named is perhaps the best."

Y byd yw yr ysgol fawr gyhoeddus—y Great Public School, ac y mae'n fuan yn dangos i'r *new pupil*, yr ysgolor newydd, ei le priodol. Os medda'r gallu i arwain, caiff ei osod mewn sefyllfa i hyny; os na, ni waeth beth ei opiniwn ei hunan am ei alluoedd, bydd rhaid iddo gwympo yn ol i'r dorf fawr. Os nad yw dyn wedi ei arfaethu i fawredd, y peth goreu ar ol hyny, yw iddo geisio am barchusrwydd; ond ni ddichon neb fod yn wir fawr nac yn wir barchus, os yn falch, yn wagogoneddgar ac yn dreisgar. Erbyn bod dyn wedi cyrhaedd ei le priodol mewn cymdeithas, bydded hwnw uchel neu isel, y tebygolrwydd yw y bydd corneli annymunol ei garacter wedi eu rhwbio i lawr. Dichon i'r rhwbio fod weithiau yn arw, yn arw iawn; ond pan fyddo i gyd drosodd, pan fyddo dyn yn gweled ei hun, fel y mae ereill yn ei weled, ac yn *looking glass* ei falchder mawr eu hunain, bydd yn falch ei fod wedi rhedeg ei yrfa mor bell yn ddianaf, nes cyrhaedd gradd o hunanwybodaeth. Ar y cyfan, nad pa gymmaint fo'r mamau anwyl yn dybied i'r gwrthwyneb, peth da i bobl ieuainc yw cael eu cnocio oddeutu yn y byd—mae yn gwneuthur dynion o honynt.

*Pencarreg.*—Ar Mehefin y 26ain, y Sul ar ol y Cwrdd yn Nghapel y Groes, cynnaliwyd gwasanaeth crefyddol yn ysgoldy y lle uchod, mewn ufudd-dod i gais arbenig, gan y Parch. R. J. Jones, Aberdar. Yr oedd tyrfa luosog iawn wedi dyfod yn nghyd, tyrfa yn perthyn i wahanol enwadau o bell ac o agos, pan y traddodwyd pregeth nerthol, seiliedig ar Ioan 1. 46, "Tyred a Gwel." Rhoddwyd annogaeth i rydd ymofyniad, a cheisiwyd gan bawb i feddwl drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol, megys mewn pethau gwleidyddol a chymdeithasol, eglurodd yr agwedd gadarnhaol o Undodiaeth, a cheisiodd gan ei wrandawyr i "ddyfod a gweled" drostynt eu hunain, ac yr oedd yn argyhoeddedig na chaent Undodiaid yn euog o'r cyhuddiad o annghrediniaeth a ddygid yn eu herbyn, gan ei bod mewn ystyr wir a rhesymol yn credu yn Nghrist ac yn y Beibl, ac fod eu ffydd wedi eu gwreiddio yn sylweddau crefydd, Duw, dyledswydd ac anfarwoldeb.—*Christian Life.*

Gwerthwyd dau bictiwr yn ddiweddar, un gan Turner am 6,500 gini, ac un gan Gainsborough am 9,500 gini; ac etto, fe ddywedir fod yr amser yn dlawd.

Maent yn awyddus i ennill enwogrwydd gwleidyddol yn ifanc yn Sir Aberteifi, ac yn enwedig tua Llanon. Dechreuant law-nodi deisebau erbyn Dadgyssylltiad yn wythnos oed.

Gwasanaethodd Forsyth, gweinidog Annghydffurfiol, yn un o'r eglwysi esgobyddol yn Manchester, ar adeg gwasanaeth yr Iwbil diweddar.

Mewn eglwys, ger Aberystwyth, yn ddiweddar, cododd ymraniad hynod yn mhlith yr addolwyr,—yr oedd un blaid am i'r offeiriad ddefnyddio'r ffurf o weddi am wlaw, tra'r oedd rhan arall yn wrthwynebol am fod y gwair ar lawr.

Fel hyn y mae Tennyson yn dadgan ei deimlad ar yr Iwbili:—

Her court was pure, her life serene,
God gave her peace, her land reposed;
A thousand claims to reverence closed
In her as mother, wife, and Queen.

Bernir y cyst yr Iwbil i'r Frenines ei hunan dros £100,000.

---

# Marwgofion.

Mehefin 10, yn 38 oed, o'r darfodedigaeth, Mary Davies, gweddw Daniel Davies, Craig Trebanos, genedigol o Glaneinion, Llanbyther. Bu yr ymadawedig fyw am flynyddau yn Rhydyfro, ac yr ydym yn deall ei bod bron bob boreu Sul yn bresenol yn Gellionen. Yn fuan ar ol symmud i Trebanos, collodd ei nerth nes yr oedd yn analluog i gyrchu i'r gwahanol oedfaon yn rheolaidd. Cafodd gystudd hir, ond dyoddefodd y cwbl yn dawel, gan rhoddi ei hyder yn ei Thad o'r Nef. Ar y 14eg, cludwyd ei gweddillion i gladdfa Gellionen, pan y daeth torf luosog i dalu eu cymmwynas olaf iddi. Yn y capel, gwasanaethwyd gan y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle, a'r Parch. J. Evans, Onenfawr. Gadawodd 8 o blant i alaru ar ei hol. Bydded i destyn angladdol dewisedig eu mam i'w cyssuro yn eu trallod, "canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu; gan fod genyf chwant i ymddattod ac i fod gyda Christ: canys llawer iawn gwell ydyw."

Mehefin 19, yn 62 oed, Mary, gwraig Thomas Jones, Ysgubor Esger, Llandyssul. Bu farw ar ol cystudd byr, ond caled, er dwfn alar i'w phriod a'i phlant. Rhagluniaeth y nef fyddo'n nodded iddo ac i'r rhai bychain ag y bu hi yn fam mor dyner a gofalus o honynt. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynoi yn Llwynrhydowen, y gweinidog yn pregethu.

Gor. 6 yn 73 mlwydd oed, John Williams, Post Office, Cefncoed. Yr oedd yr ymadawedig yn dra adnabyddus ar y Cefn ac yn Nghwm Taff, o herwydd ei gyssylltiad â'r llefydd hyn fel casglwr trethi, yr hon swydd a lanwodd i foddlonrwydd mawr am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yn ddyn tawel, cymmwynasgar, a bucheddol. Yr oedd yn aelod yn yr Hen Dy Cwrdd. Y dydd Sul canlynol, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono gan dyrfa luosog iawn i fynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Aden gariadlawn Duw fyddo dros ei weddw a'i blant.

---

*J. Howell, Argraffydd, Aberdar.*

## AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—Mrs. J., Morris Run; J.R.T., Llanio; Rev. E.C.J.; T.J., Alltyplaca; D.T., Liverpool; D.W.D., Gellionen; M.T., Llangors Villa

---

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders.* Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

---

## CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Cydnabyddwyd eisoes, £50 4s.; Rev. W. Rees, Rhydygwin, £1; Rev. W. Davies, Dowlais, 5s.; Rev. T. Lloyd Jones, Liverpool, £1 1s.; Rev. E. W. Lloyd, Cwmbach, 5s.; Rev. J. G. Evans, Oxford, 5s.; Rev. J. H. Davies, Cefn, 5s.: Rev. W. James, Llandyssul, 10s.; Rev. T. Thomas, Cribor, 10s.; Mrs. Thomas, etto, 10s.; Mrs. Evans, Cefncoed, 5s.; W. Rathbone, Esq., M.P., £1 1s.; J. Hopgood, Esq., London, £20; Herbert Thomas, Esq., Bristol, £3 3s.; F. Nettlefold, Esq., London, £5; C. M. Holland, Esq., Wrexham, £2 2s.; S. S. Tayler, Esq., London, £1 1s.; Mrs. Hemstock, Mansfield, 10s.; B. & F. U. A., London, £5; Edward Plummer, Glyncorrwg, 10s.; John Jones, Hendryd, 10s.; Mrs. Jones, etto, 10s.; Herbert Davies, Penlan, 5s.; Anne Davies, etto, 5s.; Thomas Jones, New Court, £1 10s.; D. Jones, Mount Pleasant, Aberdare, £1; John Jones, Blaenwaun, 10s.; Jane Davies, Pantyronen, 2s.; B. Jones, Bryngwyn, 2s. 6ch.; Mary Thomas, Pwllglas, 2s. 6ch.: D. Evans, Tynffynnon, 2s. 6ch.; Esther Lloyd, Cwm, 2s.; Elizabeth Davies, etto, 2s.; Daniel Davies, Tyncornel, 2s. 6ch.; T. H. R. Hughes, Esq., Neuaddfawr, £1; Jane Thomas, Caeglas, 10s.; Daniel Jones, Drefach, 4s.; W. Williams, Clynhir, 2s. 6ch.; Mary Jones, Pentrerhys, 2s., Sarah Jones, Gelligron, 2s.; Mrs. Thomas, etto, 5s.; John James etto, 4s.; D. Thomas, Rhydowen Shop, £1; Miss Thomas, etto, 10s.

---


YN AWR YN BAROD

# "BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*


---

## TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

D.S.—Yr ydym yn taer gymhell i sylw cyfeillion fod taliad yn ddyledus i'r drysorfa uchod. Anfoner at y Gol.